

CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

DEDDF ADNODDAU DŴR 1991

IS-DDEDDFAU GWIALEN A LLINYN AFON GWY (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) (CYMRU) 2021

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan adran 210 a pharagraff 6(1) (b), 6(2)(a), 6(2)(aa) a 6(2)(b) o Atodlen 25 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

Is-ddeddf 1 – Teitl

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Gwy (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2021.

Is-ddeddf 2 – Defnydd

Caiff yr is-ddeddfau hyn eu darllen ar y cyd ag Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995, fel y'u diwygiwyd, ac Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Afonydd Trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy (Cymru) 2017.

Bydd effaith yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029.

Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

- (a) ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.
- (b) ystyr "afon Gwy" yw'r rhannau hynny o afon Gwy a'i hisafonydd sydd yng Nghymru.
- (c) ystyr "eog" yw eog o'r rhywogaeth *Salmo salar*, ac mae'n cynnwys rhan o eog;

ystyr "brithyll y môr" yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredinol fel brithyll y môr neu sewin (brithyll mudol), ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr.

- (d) ystyr "Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995" yw'r is-ddeddfau sy'n rheoleiddio pysgota â gwialen a llinyn ac sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol penodol mewn perthynas â materion pysgodfeydd a wneir gan ranbarth Cymru'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.
- (e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.

Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau â gwialen a llinyn (eogiaid a brithyllod y môr)

- (a) Yn unol â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd sy'n berthnasol i afon Gwy, ac sydd eisoes yn bodoli, bydd unrhyw unigolyn sy'n cymryd unrhyw eog neu frithyll y môr, yn fyw neu'n farw, o afon Gwy, â gwialen a llinyn, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn euog o gyflawni trosedd.
- (b) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd eog neu frithyll y môr yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl.

Is-ddeddf 5 – Y tymor cau blynyddol ar gyfer eogiaid (gwialen a llinyn)

- (1) Amnewidiwyd paragraff (b) ac (c) o Is-ddeddf 3 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995: Y Tymor Cau Blynyddol ar gyfer Eogiaid (Gwialen a Llinyn) â—

“(b) Yn y rhan honno o afon Gwy sydd islaw Pont Llanwrthwl y tymor cau yw'r cyfnod rhwng 17 Hydref a 3 Mawrth sy'n dilyn.

- (c) Ym mhob un o isafonydd afon Gwy ac yn y rhan honno o afon Gwy sydd uwchlaw Pont Llanwrthwl, y tymor cau yw'r cyfnod rhwng 17 Hydref a 3 Mawrth sy'n dilyn."

CYFLAWNWYD fel gweithred gan
GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU
trwy osod y Sêl Gyffredin ym mhresenoldeb:



Llofnod:

S. Absrey

Enw (llythrennau bras):

S. ABSREY

Cyfeiriad:

TY CAMBRAIA
Cardiff

Swydd:

PENNAETH GWASANAETHAU
CYFREITHIOL